ATODLEN 5

Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol

# RHAN 3

## SAFONAU GWEITHREDU

**13** **Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau gweithredu**

**Safon 161:** Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan.

**14** **Corff yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno**

**Safon 162:** Rhaid ichi—

(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—

(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a

(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd.

**15** **Corff yn cyhoeddi trefniadau goruchwylio, hybu etc.**

**Safon 163:** Rhaid ichi—

(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer—

(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,

(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a

(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrwyd.

**16** **Corff yn llunio adroddiad blynyddol ynglŷn â safonau gweithredu**

**Safon 164:** (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—

(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 144);

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 145);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a

fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 145);

(ch) nifer yr aelodau o staff sy'n gwisgo bathodyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 146);

(d) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—

(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol,

(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol,

(ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 148);

(dd) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan.

**17 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y mae'n bwriadu cydymffurfio â safonau gweithredu**

**Safon 165:** Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

**18 Corff yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg**

**Safon 166:** Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.